NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Rheoli tymheredd i wella canlyniadau niwrolegol ar ôl ataliad y galon

23 Ionawr 2024

Ataliad y galon yw pan fydd y galon yn rhoi'r gorau i bwmpio gwaed o amgylch y corff yn sydyn, gan arwain at golli ymwybyddiaeth a marwolaeth oni roddir triniaeth dadebru brys, ac y caiff y galon ei hailddechrau. Gall unigolyn y caiff ei galon ei hailddechrau ar ôl ataliad y galon gael problemau â'i system nerfol. Mae hyn am nad oes gan ei ymennydd ddigon o ocsigen yn ystod ataliad y galon, a all achosi niwed i'r ymennydd.

Yn ystod y driniaeth hon, ar ôl ailddechrau calon rhywun a thra bydd yn parhau i fod yn anymwybodol, caiff tymheredd ei gorff ei reoli. Bydd ei gorff naill ai'n cael ei gadw ar dymheredd arferol rhwng 36.5°C a 37.5° er mwyn atal twymyn, neu'n cael ei oeri rhwng 32.0°C a 36.0°C (hypothermia therapiwtig). Caiff y ddau eu gwneud am 1 i 3 diwrnod. Y nod yw gwella cyfraddau goroesi a gwella canlyniadau niwrolegol drwy leihau’r niwed i'r ymennydd.

## Pryd bydd y driniaeth yn cael ei defnyddio i atal twymyn

Gellir defnyddio'r driniaeth hon i atal twymyn a gwella canlyniadau niwrolegol ar ôl ataliad y galon oherwydd mae'n gweithio'n dda ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

## Pryd bydd y driniaeth yn cael ei defnyddio i achosi hypothermia therapiwtig

Gellir ond gwneud y driniaeth fel rhan o astudiaeth ymchwil, pan gaiff ei defnyddio i achosi hypothermia therapiwtig (i lai na 36°C) i wella canlyniadau niwrolegol ar ôl ataliad y galon. A hynny am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio, ac mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod y driniaeth yn niweidiol o bosibl. Mae pobl sy'n cael y driniaeth hefyd yn fwy tebygol o gael rhythm calon afreolaidd.

## Gwybodaeth a chymorth

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio beth mae trefniadau safonol a dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil yn ei olygu.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8963-8